# Defnyddio gwybodaeth am berygl llifogydd mewn cynllunio gofodol

Crynodeb o'r prosiect FRS18204/S

Roedd y prosiect hwn wedi dadansoddi sut roedd y wybodaeth am bob ffynhonnell o lifogydd yn cael ei defnyddio mewn cynllunio gofodol. Defnyddiodd y canfyddiadau i wella'r canllawiau.

**Cyd-destun**

Mae'r polisi cynllunio yng Nghymru a Lloegr yn llywio'r datblygiadau oddi wrth ardaloedd sydd â’r perygl uchaf o lifogydd. Lle nad yw hynny'n bosibl, mae’n rhaid i ddatblygiadau gael eu dylunio i reoli'r risgiau i bobl mewn ffordd ddigonol a rhaid eu bod yn gallu gwrthsefyll llifogydd am eu hoes, heb gynyddu'r risg o lifogydd yn rhywle arall.

Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynhyrchu asesiadau perygl llifogydd strategol yn Lloegr ac asesiadau canlyniadau llifogydd strategol yng Nghymru er mwyn cefnogi penderfyniadau cynllunio. Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn defnyddio'r asesiadau hyn i leoli datblygiadau newydd mewn ardaloedd sydd â’r perygl lleiaf o lifogydd er mwyn lleihau effeithiau llifogydd mewn cymunedau presennol.

**Dull gweithredu**

Adolygwyd dros 150 o ddogfennau polisi a chanllawiau, asesiadau llifogydd ac adroddiadau ymchwil. Roedd y prosiect hefyd wedi edrych ar bolisïau cynllunio risg llifogydd cenedlaethol ac argymhellion o ymchwil flaenorol gan DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) ar asesiadau risg llifogydd strategol (2009) i lywio'r gwaith.

Cynhaliwyd cyfweliadau â chynllunwyr a staff rheoli perygl llifogydd a wnaeth helpu i nodi ffyrdd o ddefnyddio gwybodaeth am berygl llifogydd mewn cynllunio gofodol yn effeithiol.

**Canfyddiadau**

Datblygwyd meini prawf arferion da gan ddefnyddio gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol, a gwnaeth y prosiect hefyd nodi lle mae angen gwella’r canllawiau presennol, neu lle mae’r canllawiau ar goll.

Roedd y pynciau'n cynnwys ystyried pob ffynhonnell o berygl llifogydd, newid yn yr hinsawdd ac asesu risgiau cronnus. Defnyddiwyd yr adborth o'r cyfweliadau i ddatblygu meini prawf eraill ar gyfer arfer da i ddatblygu a defnyddio'r asesiadau perygl llifogydd strategol / asesiadau canlyniadau llifogydd strategol gan gynnwys gweithio ar y cyd a defnyddio'r dystiolaeth i gyflawni canlyniadau amgylcheddol ehangach.

Defnyddiwyd y meini prawf i nodi'r arfer da yn y dogfennau a adolygwyd. Edrychwyd ar 18 o astudiaethau achos mewn mwy o fanylder er mwyn disgrifio enghreifftiau o arfer da.

Ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael am Gymru, felly roedd y dystiolaeth a'r adolygiad a'r dadansoddiad dilynol wedi'u cyfyngu i Loegr i raddau helaeth. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar argymhellion y polisi cynllunio a'r broses o lunio polisi yn Lloegr. Mae set ar wahân o argymhellion i Gymru wedi'i gynnwys sy’n seiliedig ar y dystiolaeth a oedd ar gael.

**Defnyddio canfyddiadau'r prosiect**

Defnyddiodd Asiantaeth yr Amgylchedd argymhellion cychwynnol i ddiweddaru'r canllawiau ar-lein ar gyfer asesiadau perygl llifogydd strategol (Asiantaeth yr Amgylched) a chyngor sefydlog o ran perygl llifogydd yn ystod haf 2019.

Er mwyn atgyfnerthu hyn, mae canllaw arfer da wedi'i ddatblygu ar gyfer asesiadau perygl llifogydd strategol sy'n cynnwys astudiaethau achos a meini prawf arfer da (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfarwyddwyr yr Amgylchedd, Economi, Cynllunio a Thrafnidiaeth (ADEPT), Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd (CIWEM)). Bydd y canllaw hwn yn cefnogi awdurdodau cynllunio lleol yn Lloegr i gynhyrchu asesiadau perygl llifogydd strategol sy'n bodloni'r polisi cynllunio a chyflawni canlyniadau ar gyfer rheoli perygl llifogydd a risgiau.

Mae'r argymhellion o'r gwaith ymchwil hefyd wedi'u defnyddio i lywio'r diweddariadau i Fframwaith y Polisi Cynllunio Cenedlaethol, (Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau I, 2021), y Canllaw Arfer Cynllunio ac adolygiad cynllunio'r llywodraeth.

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect FRS18204: Defnyddio gwybodaeth am lifogydd mewn cynllunio gofodol, yr adroddir amdano yn fanwl yn yr allbwn/allbynnau canlynol:

**Adroddiad: FRS18204/R1**

**Teitl:** Ymchwil ar ddefnyddio gwybodaeth am berygl llifogydd mewn cynllunio gofodol Adroddiad y prosiect

**Adroddiad: FRS18204/R2**

**Teitl:** Ymchwil ar ddefnyddio gwybodaeth am berygl llifogydd mewn cynllunio gofodol Adroddiad tystiolaeth: datblygu meini prawf arfer da

**Gorffennaf 2021**

**Rheolwr y prosiect a'r thema:** Hayley Bowman, Rheolwr Thema Polisi, Strategaeth a Buddsoddi, Ymchwil Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordirol

**Contractiwr ymchwil:** AECOM Ltd, Midpoint, Alencon Link, Basingstoke RG21 7PP Ffôn: 01256 310200

**Cydweithredwyr Ymchwil:** Coleman Planning and Environmental; RAB Consultants; Capita.

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Gwefan: Flood and Coastal Erosion Risk Management Research and Development Programme - GOV.UK (www.gov.uk)

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd